# BWLETIN Y FARCHNAD HCC


MAI 2017

**Mae'r data cofrestru lloi gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) wedi dangos bod cyfanswm nifer y lloi cig eidion a gofrestrwyd ar ddaliadau yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol yn 2016, tra bod nifer y cofrestriadau lloi mewn buchesi godro wedi gostwng. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau.**

Yn 2016, roedd bron chwarter miliwn o loi cig eidion wedi'u cofrestru ar ddaliadau yng Nghymru, sef 4.6% (neu 11,000 o loi) yn fwy nag yn 2015. O fewn y cyfanswm hwn, gwelwyd cynnydd yn nifer y cofrestriadau lloi gwryw a benyw, sef 127,400 a 121,950 yn ôl eu trefn. Cofrestrwyd 139,200 o loi o fuchesi godro yn ystod y flwyddyn, ac roedd bron 60% o'r rhain yn lloi benyw. Yn groes i'r patrwm a welwyd gydag anifeiliaid cig eidion, cofrestrwyd llai o loi gwryw a benyw yn y buchesi godro, sef 9% a 4% yn ôl eu trefn.

Cofrestrwyd 1.8 miliwn o loi cig eidion ym Mhrydain – gydag oddeutu'r un nifer o loi gwryw a benyw – a chofrestrwyd ychydig dros 850,000 o loi yn y buchesi godro. Er bod cyfanswm nifer y cofrestriadau yn debyg i 2016 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, bu newid sylweddol rhwng y gwahanol fridiau. Roedd y patrwm a welwyd ar draws Prydain yn adlewyrchu'r datblygiadau yng Nghymru wrth i nifer y cofrestriadau cig eidion gynyddu 4% tra bod cofrestriadau yn y buchesi godro wedi gostwng 6%. Mae'r gostyngiad yn nifer y lloi godro yn amlygu'r problemau a wynebwyd gan y sector dros y blynyddoedd diwethaf am y byddai cynhyrchwyr wedi gwneud mwy o ddefnydd o deirw cig eidion yn eu buchesi godro. Mae hefyd yn bosibl y byddai rhai wedi chwilio am anifeiliaid amnewid o'r tu allan i Brydain.


**Cofrestriadau lloi cig eidion yng Nghymru, fesul mis, 2016**




Mae patrwm y cofrestriadau yn ystod y flwyddyn yn tynnu sylw at faint o fuchesi godro a chig eidion yng Nghymru sy'n lloia yn y gwanwyn, ychydig cyn neu ychydig ar ôl troi'r gwartheg allan i bori. Yn ystod y cyfnod o dri mis rhwng mis Mawrth a mis Mai, cofrestrwyd dros 40% o'r lloi cig eidion gyda BCMS. Yn dilyn y misoedd hyn, bu gostyngiad graddol yn nifer y lloi a anwyd bob mis tan ddiwedd y flwyddyn. O gymharu'r canlyniadau hyn â blynyddoedd blaenorol, gwelir eu bod yn batrwm i'r sector ers peth amser.

A llawer o ffermydd am reoli'r fuches yn well drwy gael cyfnod lloia byrrach, gellid disgwyl i'r gwahaniaeth rhwng y misoedd â'r cofrestru uchaf a'r misoedd â'r cofrestru isaf fod yn fwy na'r hyn a welir yn y niferoedd oherwydd yn y mis tawelaf o ran cofrestru – mis Rhagfyr - cofrestrwyd dros 5% o'r cyfanswm. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos lle gallai'r sector cig eidion wneud gwelliannau oherwydd mae cael cyfnod lloia byr yn ei gwneud yn haws i reoli buchod a lloi yn y fuches ac mae modd hefyd i leihau costau llafur.

**Cofrestriadau lloi cig eidion ar ddaliadau yng Nghymru, fesul brid, 2016**





Teirw cyfandirol a ddefnyddir yn bennaf o hyd ar gyfer lloi cig eidion yng Nghymru. Lloi Limousin a Charolais (pur linach a chroes) oedd dros hanner cyfanswm y cofrestriadau cig eidion ar gyfer 2016. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad bach yn eu cyfran o'r cyfanswm o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol wrth i Leision Prydain, Henffordd ac Aberdeen Angus gynyddu eu cyfran.

Gallai'r cynnydd yn y cofrestriadau Henffordd ac Angus fod yn ganlyniad i gynhyrchwyr yn newid systemau er mwyn cyflenwi proseswyr sy'n cynnig gwell prisiau am wartheg o'r bridiau hyn. Mae'r cynnydd yng nghofrestriadau gwartheg o fridiau cynhenid yn batrwm sydd wedi digwydd ar draws Prydain yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod y premiwm ar gyfer yr anifeiliaid hyn yn dal i fodoli, os bydd y niferoedd yn parhau i gynyddu, yna gallai'r cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw olygu bod y prisiau confensiynol a phremiwm yn cyfarfod. Cofrestriadau lloi Friesian (Holstein a Phrydeinig) oedd 90% o'r holl loi godro a gofrestrwyd ar ddaliadau yng Nghymru yn 2016.

# PRISIAU'R FARCHNAD

## GWARTHEG

Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr





Cafwyd ychydig o welliannau ym mhrisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr yn ystod mis Ebrill. Fodd bynnag, cafwyd amrywiaeth wrth i'r farchnad addasu i wythnosau masnachu byrrach oherwydd y gwyliau banc. Yn yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill, roedd pris cyfartalog gwartheg dethol yn 187.0c/kg, sef dros 5c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond hon oedd yr wythnos fasnachu lawn gyntaf ers tair wythnos. Oddi mewn i'r pris cyfartalog, roedd prisiau bustych, heffrod a theirw ifanc, yn ôl eu trefn, yn 183.6c, 198.9c a 181.5c. Ym mhob categori o wartheg dethol gwelwyd gostyngiad yn y pris o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Felly, mae pris cyfartalog y gwartheg dethol tua 18c yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Cafwyd rhywfaint o gynnydd ym masnach gwartheg dethol pwysau marw yn ystod y mis diwethaf. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill cafwyd cynnydd o 0.2c i 344.8c/kg yn y pris cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr, a hynny am fod y niferoedd a oedd ar gael yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau am fustych tua 37c yn uwch nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Cafwyd cynnydd hefyd, o bron 0.5c, i 345.6c/kg ym mhrisiau heffrod pwysau marw yng Nghymru a Lloegr; unwaith eto, roedd mwy o anifeiliaid ar gael yn rhannol oherwydd wythnos gyfan o brosesu. Gwelodd pris cyfartalog teirw ifanc y cynnydd mwyaf, ond roedd hynny'n dilyn wythnos o brisiau is. Ar gyfer yr wythnos yn gorffen 29 Ebrill y pris cyfartalog yng Nghymru a Lloegr oedd 321.9c/kg, cynnydd o 2.8c ers yr wythnos flaenorol.

Roedd prisiau buchod difa ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr yn 120.8c/kg ar gyfer yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill, sef 17c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y flwyddyn flaenorol. Roedd prisiau gwartheg difa pwysau marw yng Nghymru a Lloegr yn yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill yn 237.4c/kg, sef 5c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol.

## DEFAID

Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru





Dangosodd y fasnach cig oen pwysau byw y duedd dymhorol a ddisgwylir yn y cyfnod cyn ac ar ôl y Pasg, sef prisiau'n cynyddu wrth i bobl chwilio am gig oen cyn yr ŵyl a llai o alw wedyn. Yn yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) cyfunol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn 191.6c/kg, sef 4.5c yn llai na'r cyfartaledd cyfunol yr wythnos flaenorol. Yr SQQ ar gyfer ŵyn hen dymor mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru yn yr wythnos ddiweddaraf oedd 174.4c/kg, sef 11c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd pris ŵyn Tymor Newydd yn yr un wythnos yn 232.5c/kg, ar gyfartaledd, sef bron 30c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Roedd hyn wrth i nifer yr ŵyn a gafodd eu marchnata fwy na dyblu i dros 3,700.

Mae'r fasnach cig oen pwysau marw hefyd wedi dilyn y duedd dymhorol a ddisgwylir dros y mis diwethaf. Yn yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill, roedd prisiau ŵyn pwysau marw yng Mhrydain yn 412.8c/kg, sef bron 2c yn uwch na'r wythnos flaenorol. Felly, mae prisiau bron yn 10c yn uwch na'r pris pwysau marw yn ystod yr wythnos gyfatebol yn 2016. Mae'r pris pwysau marw sy'n cael ei ddyfynnu yn bris cyfartalog cyfunol ac felly mae'n cael ei ddylanwadu gan y nifer o NSL/OSL yn y rhifau.

Yn dilyn dirywiad yn gynnar yn y mis, cafwyd gwelliant mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru tua diwedd Ebrill. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill, roedd y pris yn £57.20 yr anifail, sef 40c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau yn debyg iawn i'r hyn oeddynt yn yr wythnos gyfatebol yn 2016.

## MOCH

Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




Mae pris y moch safonol (manyleb yr UE) wedi parhau i wella am fis arall gyda chodiadau graddol ond parhaus yn y pris wythnosol yn ystod mis Ebrill. Yn debyg i'r mis blaenorol, gwelwyd cynnydd bob wythnos yn olynol, ac ar ddiwedd y mis roedd y pris yn 4c yn uwch nag oedd ar ddechrau'r mis. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 22 Ebrill, roedd y pris cyfartalog yn159.0c/kg, sef bron 1c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Felly, mae'r prisiau dros 42c yn uwch nag oeddynt yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Yn ystod yr wythnos yn diweddu 29 Ebrill roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 156.5c/kg, sef 0.3c yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol a thros 42c yn uwch na'r prisiau yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Amcangyfrifir bod niferoedd lladd 2% yn is na'r wythnos flaenorol a 7% yn is na'r wythnos gyfatebol y llynedd sy'n awgrymu bod y cydbwysedd cyflenwad/galw yn ffafrio'r cynhyrchwyr ar hyn o bryd.

Yn groes i'r duedd a gofnodwyd dros y tair wythnos ddiwethaf, lladdwyd mwy o foch yn yr wythnos yn diweddu 22 Ebrill. Lladdwyd 163,200 o foch, sef 11% yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol, ond 9% yn llai nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2016. Yn yr wythnos yn diweddu 22 Ebrill roedd pris cyfartalog y perchyll 30kg yn £58.27, sef bron £2.80 yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi fod prisiau wedi gostwng yn gyflym yr wythnos flaenorol. Yn ystod yr un wythnos, roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £40.81, sef £1.00 yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Hwn oedd y tro cyntaf i'r pris godi i dros £40 ers mis Awst 2014.